PECYNNAU ADNODDAU



Busnes Cymru | Business Wales

# YMRWYMEDIG I GYFLOGAETH IEUENCTID

## RHWYSTRAU MAE POBL IFANC YN EU HWYNEBU A'R HER DDIWEITHDRA YMHLITH IEUENCTID

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# PA RWYSTRAU I GYFLOGAETH Y MAE POBL IFANC YN EU HWYNEBU?

O chwarter cyntaf 2023, mae oddeutu 46,000 o bobl ifanc rhwng 16-24 oed sy'n NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) yng Nghymru. Efallai nad yw'r bobl ifanc hyn yn chwilio am waith am amrywiaeth o resymau, megis salwch neu gyfrifoldebau gofalu. I'r gwrthwyneb, efallai eu bod yn chwilio am waith ond yn wynebu rhwystrau a heriau eraill sy'n ei gwneud yn anodd cael mynediad at gyflogaeth.



Mae'r nifer cynyddol hwn o bobl ifanc sy'n mynd yn ddi-waith – sy'n golygu nad ydynt mewn addysg amser llawn, neu'n ddi-waith ac nad ydynt yn chwilio am waith – yn bryder mawr.

Mae llawer o gyflogwyr yn teimlo effeithiau'r newid hwn. Maent yn cael trafferth llenwi eu swyddi gwag ac wedi sylwi ar brinder sgiliau cynyddol yn eu diwydiannau, gan fod y rhwystrau y mae'r bobl ifanc hyn yn eu hwynebu yn eu harwain i ddewis diweithdra dros opsiynau eraill. Wedi'u rhwystro gan bryder, mae llawer o bobl ifanc yn ei chael hi'n anodd gwneud dewis, sy'n golygu y gall peidio gwneud unrhyw benderfyniad deimlo'n fwy diogel na gwneud penderfyniad llawn straen neu'r penderfyniad anghywir.

Fodd bynnag, mae effeithiau creithio nid yn unig yn y farchnad lafur, ond ar y bobl ifanc hyn hefyd, a achosir gan ddiweithdra.

Mae'r dirwedd diweithdra ymhlith pobl ifanc yn gymhleth, ond drwy ddefnyddio'r Cyfrifiad Llais Ieuenctid*, rydym wedi canfod rhai tueddiadau cynyddol sy'n peri pryder. Yr arolwg cenedlaethol hwn yw sut rydym yn deall beth mae pobl ifanc yn ei brofi.

Cymerodd dros 4,000 o bobl ifanc 11-30 oed ran yng ngwiriad tymheredd blynyddol 2022, gan ateb cwestiynau am fywyd, astudio a gwaith. Gan ddefnyddio'r data, nododd Youth Employment UK bedwar rhwystr mawr i gyflogaeth i bobl ifanc.



Cafodd

**23%**

o weithwyr ifanc eu rhoi ar ffyrlo yn 2020

**9%**

o weithwyr ifanc wedi colli eu swyddi yn 2020

# EFFAITH COVID-19 AR GYFLOGAETH IEUENCTID

Mae iechyd meddwl pobl ifanc, eu profiad yn y gweithle, a'u potensial ennill cyflog yn y tymor hir i gyd wedi cael ergyd yn sgil pandemig Covid-19.

Dangosodd un adroddiad fod y gyfradd ddiweithdra wedi codi 34% ar gyfer pobl ifanc Ddu, 23.7% ar gyfer pobl ifanc Asiaidd, a 13% ar gyfer pobl ifanc gwyn erbyn diwedd 2020. Yn ogystal, cafodd 23% o weithwyr ifanc eu rhoi ar ffyrlo yn 2020, a chollodd 9% arall eu swyddi yn gyfan gwbl*.

Canfu adroddiad Covid 19 a Chyflogaeth Ieuenctid BITC* fod y rhai sy'n gadael addysg yn 2020 yn fwy tebygol o wynebu llai o gyflog a rhagolygon, hyd yn oed ar ôl i'r economi wella. Po hiraf y bydd y bobl ifanc hyn allan o waith, yr anoddaf yw hi iddynt ymgysylltu â'r farchnad lafur a symud ymlaen.

Creodd Covid-19 set arall o broblemau hefyd sydd wedi effeithio ar ragolygon cyflogaeth pobl ifanc ac a fydd yn parhau i effeithio arnynt. Creodd a gwaethygodd y pandemig anableddau, cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol, ac mae lefelau straen i filiynau o bobl a'i oblygiadau llawn a pharhaol yn dal i gael eu teimlo.

# ARGYFWNG IECHYD MEDDWL



Mae cyflyrau iechyd meddwl fel iselder a gorbryder ymhlith y materion mwyaf a mwyaf llethol sy'n wynebu pobl ifanc. Dywedodd yr ymatebwyr nad ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus na chyfforddus yn eu gallu i gymryd y camau nesaf, sy'n eu dal yn ôl rhag gwneud unrhyw fath o benderfyniadau.

Felly, mae deall cymhlethdod iechyd meddwl a sut y gallwn gefnogi pobl ifanc ar y cyd i ennill yr hyder a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen yn hanfodol. Mae rôl i'r llywodraeth ei chwarae yma, ond hefyd rôl i gyflogwyr, ysgolion, a chymunedau ehangach.

Canfu astudiaeth gan y BBC o bobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru fod pobl ifanc yn gweithio'n anghymesur mewn sectorau y bu'n rhaid iddynt gau yn ystod pandemig Covid-19. Dywed Iechyd Cyhoeddus Cymru fod 36% o weithwyr 16-24 oed yn cael eu cyflogi yn y "sectorau clo" (fel lletygarwch, arlwyo, hamdden a thwristiaeth) yng Nghymru, o gymharu â dim ond 11% o weithwyr 35-64 oed.

Gan fod cymaint ohonynt yn tueddu i weithio mewn sectorau sydd â llai o amddiffyniad a llai o hawliau oherwydd "natur hyblyg" y swyddi, effeithiwyd yn aruthrol ar sefyllfaoedd cyflogaeth y bobl ifanc hyn. Mae hyn wedi arwain at ansicrwydd ynghylch eu dyfodol a'u rhagolygon swyddi, ac nid yw'r straeon am yr argyfwng costau byw ond wedi cynyddu a gwaethygu'r pryder hwn.

## MAE GWAHANIAETH YN ANFANTAIS

Mae'r bobl ifanc hynny sy'n "wahanol" – hynny yw, rhan o rai grwpiau ymylol – yn profi rhwystrau ychwanegol rhag cael gwaith.

Dangoswyd bod pobl ifanc sy'n LGBTQ+, Du, Asiaidd, lleiafrifoedd ethnig, rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr, anabl, neu a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim yn mwynhau llai o gyfleoedd cyfartal ac nad ydynt yn cael yr un lefel o arweiniad gyrfaoedd o safon â'u cyfoedion.

Nid yw'r strwythurau cymorth a all roi hwb i hyder a lles ar eu taith i'r gwaith yn eu lle ar gyfer y bobl ifanc hyn, ac nid ydynt yn agos at fod mor addas at y diben ag y dylent fod.

Mae'r gwahaniaethau mwyaf oll yn cael eu dioddef gan ymatebwyr trawsryweddol (o 25%) a chan ymatebwyr Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd (a oedd o leiaf 10% yn fwy tebygol na phobl ifanc o unrhyw hil neu ethnigrwydd arall o beidio â bod yn hyderus i gael mynediad at waith o safon.)



## AMHAROD AR GYFER Y DYFODOL

Nid yw llawer o bobl ifanc yn teimlo'n barod am waith oherwydd nad ydynt yn meddwl bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau cywir y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Er enghraifft, efallai na fyddant yn gwybod sut i ysgrifennu eu CV neu sut i fod yn llwyddiannus mewn prosesau ymgeisio am swydd. Nid yw'r bobl ifanc hyn yn cael hyfforddiant a chymorth mewn addysg i ddysgu'r sgiliau hanfodol hyn, gan eu gadael dan anfantais fawr pan fyddant yn gadael yr ysgol, coleg neu brifysgol ac angen gwneud cais am waith.

Mae cyflogwyr sy'n cyflogi mewn ffyrdd nad yw pobl ifanc yn hyderus ynddyn nhw (fel canolfannau asesu) yn colli allan ar dalent ifanc wych a photensial anhygoel.

Os ydych chi'n recriwtio neu'n dymuno recriwtio pobl ifanc, mae'n hanfodol meddwl am ddiweddaru ac addasu eich prosesau, eich polisïau, a'ch gofynion gan bobl ifanc i'w helpu i drosglwyddo i gyflogaeth.



# GWAITH O ANSAWDD

Nid yw llawer o bobl ifanc yn meddwl y gallant ddod o hyd i gyfleoedd o ansawdd da lle maent yn byw, gyda lleoliad daearyddol yn aml yn rhwystr sylweddol.

Yn ôl ymchwil y BBC i'r effaith mae Covid-19 wedi'i chael ar bobl ifanc a graddedigion, mae gostyngiad o 12% yn y graddedigion a gafodd eu recriwtio yn 2020, gyda 64.6% o'r 1,202 o fyfyrwyr sydd ar fin graddio a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo'n besimistaidd ynglŷn â'u rhagolygon gwaith. .

Yn yr un modd, canfu Youth Futures Foundation* fod pobl ifanc yn 2021 yn cael trafferth dod o hyd i swyddi oherwydd galw isel, ac felly cystadleuaeth uchel, gan arwain nifer cynyddol o bobl ifanc i ddod yn NEET er gwaethaf eu hymdrechion gorau. Roedd un o bob 10 o bobl ifanc yn y DU* rhwng Gorffennaf a Medi 2021 yn NEET.

Dyma un o'r rhesymau yr aethom ati i greu'r bathodyn Cyflogwr Cyfeillgar i Ieuenctid. Bydd gweld cyflogwyr yng Nghymru yn arddangos y bathodyn hwnnw yn hynod o bwysig i bobl ifanc oherwydd byddant yn gallu i allu adnabod cyflogwyr sy'n malio cyflogaeth ieuenctid da a chreu cyfleoedd da i bawb.



# GRADDIO I'R FARCHNAD SWYDDI ÔL-COVID

Mae graddedigion heddiw yn dod i mewn i dirwedd waith sydd wedi newid yn llwyr o gymharu â hyd yn oed bum mlynedd yn ôl.



Adroddodd Resolution Foundation (2020) fod cyfraddau cyflogaeth graddedigion ar ôl gadael addysg tua 13%* yn is nag y byddent wedi bod pe na bai'r pandemig erioed wedi digwydd.

Dywedodd y sefydliad hefyd fod y rhai sy'n gadael addysg yn 2020 yn debygol o wynebu cyfraddau cyflog is a rhagolygon llai yn y tymor hir, hyd yn oed ar ôl i'r economi wella.

Mae'r cynnydd mewn gweithio o bell, er ei fod o fudd i lawer o bobl, hefyd yn cyflwyno set unigryw o faterion sy'n effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc. Nid oes gan 72%* o'r rhai dan 25 oed y lle i weithio gartref, a all niweidio eu cyfleoedd yn sylweddol neu hyd yn oed eithrio'r bobl ifanc hynny o lawer o swyddi yn gyfan gwbl.

Mae cyflogwyr hefyd yn dweud wrthym nad yw'r sgiliau trosglwyddadwy a thechnegol y maent yn chwilio amdanynt yno i'r un graddau ag yr oeddent cyn y pandemig. Mae hyn oherwydd bod llawer o bobl ifanc wedi colli amser mawr ei angen mewn addysg.

Roedd graddedigion diweddar sy'n dod i mewn i'r farchnad lafur, yn arbennig, wedi colli allan ar leoliadau gwaith, profiad a chyfarwyddyd gyrfaoedd.

# MATERION SY'N WYNEBU CYFLOGWYR

Heb fynd i'r afael â'r materion hyn, mae nifer y bobl ifanc sy'n dod yn ddi-waith yn mynd i barhau i dyfu hyd yn oed yn fwy dros y ddwy flynedd nesaf.

Roedd y materion hyn yn bodoli cyn y pandemig, wrth gwrs, ond mae Covid-19 wedi eu gwaethygu'n aruthrol. Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog* wedi canfod bod Covid-19 a chostau byw wedi cael effaith aruthrol ar bobl ifanc heddiw, ac yn datgan bod 2.8 miliwn o bobl ifanc* yn teimlo'n amheus ynghylch eu rhagolygon swyddi yn y dyfodol.



Mae cyflogwyr hefyd wedi dweud eu bod yn cael trafferth recriwtio, denu, a chadw pobl ifanc, ac nad yw'r bobl ifanc y maent yn eu gweld yn aml yn barod am waith. Ond heb gael addysg gyrfaoedd o ansawdd da yn yr ysgol a chyfleoedd yn y byd gwaith go iawn, sut y gallwn ddisgwyl i bobl ifanc heddiw fodloni disgwyliadau cyn-bandemig o barodrwydd am waith?

Dyma lle mae ein gwaith yn Youth Employement UK yn chwarae ei ran. Ein nod yw helpu cyflogwyr i ddeall lle mae pobl ifanc a sut mae ailfeddwl eu harferion recriwtio er mwyn ein caniatáu ni i gyd gymryd camau ymlaen.

Mae pobl ifanc yn dalentog a gallant ddod â llawer o asedau i'r sefydliadau sy'n eu cyflogi, ond mae'r data'n dangos yn glir bod angen i fusnesau addasu eu ffordd o feddwl ynghylch recriwtio a chymorth.

> Bydd buddsoddi mewn pobl ifanc, sef gweithlu'r dyfodol, yn talu'n ôl i fusnes droeon wrth i'r bobl ifanc hynny symud ymlaen a ffynnu yn yr amgylchedd gwaith.

Sefydlwyd y Warant i Bobl Ifanc i sicrhau y gall hyn ddigwydd a'i nod yw sicrhau bod 90% o bobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET) erbyn 2050.

# ADNODDAU A DDEFNYDDIR YN YR ERTHYGL

- 2021 Impact Report*
  *Youth Futures Foundation*
- Young people not in education, employment or training (NEET): April 2022 to March 2023
  *Llywodraeth Cymru*
- Covid-19 & Youth Employment Report*
  *BITC*
- Cyfrifiad Llais Ieuenctid 2022*
  *Youth Employment UK*
- Y Siarter Cyflogaeth Ieuenctid Da
  *Youth Employment UK*
- Covid: Young people 'worried about jobs' after pandemic
  *BBC*
- Covid: Support calls for graduates in 'midst of pandemic',
  *BBC Cymru*
- 2022 Impact Report*
  *Youth Future Foundation*
- Mynd i'r afael â heriau cyflogaeth pobl ifanc yn bwysig ar gyfer iechyd da ar ôl y pandemig
  *Iechyd Cyhoeddus Cymru*
- Y Warant i Bobl Ifanc
  *Busnes Cymru*

*Yn seiliedig ar ffigurau'r DU

Cyhoeddwyd Mehefin 2023



Busnes Cymru | Business Wales

## CYSWLLT

Cysylltwch â ni i drafod sut all eich busnes gefnogi pobl ifanc i ddod o hyd i waith gydag un o'n cynghorwyr.

Ffoniwch Busnes Cymru ar **03000 6 03000** neu ewch i **Cymorth Recriwtio | Busnes Cymru Porth Sgiliau (gov.wales)** am ragor o wybodaeth, cymorth a chyngor am ddim.


**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales


Llywodraeth Cymru
Welsh Government